



Inspecting policing  
in the public interest



## **Adroddiad Arolwg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

**Heddlu Dyfed-Powys**

Mae Dyfed-Powys yn profi lefel gymharol is o ymddygiad gwrthgymdeithasol a lefel is o droseddau'r pen o'r boblogaeth.

### **Ein hadolygiad ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Yng ngwanwyn 2010, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) adolygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys holi dioddefwyr am eu profiadau o roi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu, ac arolygu safon y prosesau y mae heddluoedd yn eu defnyddio i ymdrin â phroblem ac ymateb iddi.

Trwy weithio gyda Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu ym Mhrifysgol Caerdydd, fe wnaethom wedyn ddefnyddio'r canlyniadau hyn i ateb y cwestiwn sut y gall yr heddlu ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol orau.

### **Beth sy'n gweithio?**

Bydd gan heddluoedd y cyfle gorau i roi gwasanaeth da i ddioddefwyr os gwnânt dri pheth allweddol:

- Rhoi gwybodaeth i'r holl swyddogion a staff perthnasol (gan gynnwys timau plismona cymdogaeth, swyddogion sy'n ymateb i argyfyngau a swyddogion CID) yn gyson a thrylwyr am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol;
- Casglu a dadansoddi data a gwybodaeth yn gyson ar fannau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd, troseddwy'r a dioddefwyr yn eu hardal, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddyrannu adnoddau i ymdrin â'r problemau; a
- Darparu'r offer a'r adnoddau cywir i'w timau plismona yn y gymdogaeth i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna monitro'r cynlluniau y mae'r timau yn eu rhoi yn eu lle i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol.

Dyma sut mae Heddlu Dyfed-Powys yn perfformio yn y meysydd hyn.

### **A yw'r holl swyddogion a staff perthnasol yn cael gwybodaeth drylwyr a chyson am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol?**

Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol bob amser yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd briffio dyddiol, ond mae'n cael ei amlygu yn ôl y gofyn. Mae'r cyfarfodydd briffio yma yn cael eu cynnal gan oruchwylwyr ond gall staff friffio eu hunain yn absenoldeb goruchwylwr. Mae swyddogion CID, Ymateb a'r tîm plismona yn y gymdogaeth weithiau yn cael eu briffio gyda'i gilydd am faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae enghreifftiau manwl pan fydd materion ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol lleol wedi cael eu rhannu ymhlith staff, er bod hyn yn digwydd yn llai aml i'r CID a'r timau ymateb.

### **A yw'r heddlu yn defnyddio gwybodaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol i dargedu ei waith wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?**

Mae'r gwaith i ymdrin â throseddwy'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n aildroseddau a manau drwg o ran troseddau yn cael eu rheoli yn effeithiol trwy ddadansoddi data a gwybodaeth i ddynodi'r ardaloedd lle mae problemau. Ond, nid yw'r penderfyniadau ar y modd y dylid dyrannu a chydlynu adnoddau yn cael eu targedu ar ymdrin ag anghenion dioddefwyr sy'n dioddef dro ar ôl tro neu ddioddefwyr bregus.

### **A oes gan dimau plismona yn y gymdogaeth yr offer a'r adnoddau cywir i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac a yw'r cynlluniau y maent yn eu rhoi yn eu lle i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol yn cael eu monitro?**

Yn gyffredinol, fe wnaeth HMIC ddarganfod staff oedd wedi eu hysgogi ac yn frwdfrydig iawn, a rhai enghreifftiau rhagorol o weithio gyda phartneriaid i ddatrys problemau ymddygiad

gwrthgymdeithasol tymor hir. Mae'r tactegau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys defnyddio gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO), gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â throedd (CRASBO), contractau ymddygiad derbyniol (ABC), rhybuddion cosb sefydlog (FPN) a gorchmynion gwasgaru, y cyfan yn rhan o broses ymyrryd glir.

Roedd tystiolaeth bod dewisiadau tactegol weithiau yn cael eu trafod rhwng timau cymdogaeth a staff eraill (fel CID neu swyddogion traffig), wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i ddatrys problemau ymddygiad cymdeithasol penodol. Er na nodwyd unrhyw broses ffurfiol, fe ddefnyddir y cynlluniau datrys problemau yma i ymdrin â digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a blaenoriaethau lleol, ac mae timau cymdogaeth yn aml yn dod at ei gilydd i drafod arfer da, blaengaredd a syniadau newydd. Ond fe ellid monitro cynnydd y camau yma o'u cymharu â'r cynlluniau mewn modd mwy cyson.


Roedd yr enghreifftiau da o ddatrys problemau yn cynnwys atafaelu alcohol gan dimau plismona yn y gymdogaeth a sefydlu parthau di-alcohol, sydd yn eu tro wedi lleihau'r nifer o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ddiweddar bu Ceredigion yn gweithio yn glos gydag asiantaethau partner i greu parth di-alcohol yn Aberystwyth.

### A yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth gan yr heddlu?

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei nodi yn glir fel blaenoriaeth gan yr heddlu ac mae'n cael sylw yn y cynllun plismona lleol a'r dogfennau perthnasol. Mae lefel yr adnoddau a roddir i ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r data a'r wybodaeth a ddadansoddir yn dangos ymrwymiad clir i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### Canlyniadau'r arolwg bodlonrwydd dioddefwyr

Fe wnaethom gynnal arolwg ar 102 o bobl oedd wedi rhoi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nyfed-Powys yn ystod Medi 2009. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau iddynt am eu hamgyffrediad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol a'u profiad wrth roi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu.



O'r canlyniadau, gellir gweld bod yr heddlu yn perfformio yn fras yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y meysydd a ystyriwyd yn yr arolwg.

